

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**

External Affairs and Additional Legislation Committee

Lynne Neagle AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant,

Pobl Ifanc ac Addysg

5 Chwefror 2018

Annwyl Lynne,

**Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?**


Heddiw, fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad, **'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?'** a hynny'n dilyn ei ymchwiliad i **Wytnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit.**

Mae adran 3 o'r adroddiad yn ymwneud â pharodrwydd gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys addysg uwch. Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu'ch sylw'n benodol at adran 3.2 sy'n ymwneud â newidiadau i'r rheolau mewn fudo ac adran 3.5 sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi gan y gallant fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor. Wrth baratoi'r adroddiad hefyd, ystyriwyd **trafodaethau rapporteur** â staff a myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Rwy'n tynnu'ch sylw at yr uchod yn y gobaith y bydd o gymorth ichi yn y dyfodol pan fyddwch yn craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet a'r portffolio addysg. Er gwybodaeth rwyf wedi anfon copi i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Os hoffech drafod hyn ymhellach, cofiwch gysylltu.

Yn gywir



**David Rees AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA  
SeneddMADY@cynulliad.cymru  
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY  
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA  
SeneddEAL@assembly.wales  
www.assembly.wales/SeneddEAL  
0300 200 6565